

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 522 · Gorffennaf 2021 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Car Trydan Cymunedol – lawnsio gwasanaeth newydd

Y Dyffryn Gwyrdd

Mae Dyffryn Gwyrdd yn brosiect tair blynedd a ariennir gan y Loteri Gymunedol, dan arweiniad Partneriaeth Ogwen. Mae'n cynnal nifer o brosiectau gyda'r nod o gryfhau'r gymuned. Am restr lawn gweler www.partneriaethogwen.cymru

Dros yr haf eleni bydd cyfle i drigolion hŷn y dyffryn, a'r rheini sy'n defnyddio cadair olwyn wneud defnydd o gerbyd trydan newydd prosiect y Dyffryn Gwyrdd. Mae'r cerbyd Nissan Evalia (sydd eto i'w enwi, ond mae cystadleuaeth ar y gweill gyda'r ysgolion lleol!) yn hygyrch i gadair olwyn a'r bwriad yw bod aelodau'r cynllun yn gallu'i ddefnyddio ar gyfer mynychu apwyntiadau a digwyddiadau cymdeithasol. Bydd y gwasanaeth yn un lle y cesglir unigolion o'u cartrefi, eu cludo i'r apwyntiad ac yna eu dychwelyd gartref, a hynny i



gyd am bris rhesymol. Hyn i gyd heb losgi unrhyw danwydd ffosil, a'r cwbl wedi'i wefru o baneli solar Ynni Ogwen ar do'r Llyfrgell!



Am fwy o fanylion cysylltwch â ni – huw@ogwen.org, menna@ogwen.org neu 01248602131.

Argraffu rhifyn mis Medi

Rydym yn anelu at gyhoeddi copi caled o'r papur fis Medi os bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Dyma'n bwriad a'n gobaith. Dymunwn ddiolch i chi'r darllenwyr am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod dyrys hwn.



Panel Golygyddol

Derfel Roberts

(Ffôn 600965)

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606)

rml42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:**Dewi A Morgan**, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:**Neville Hughes**, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:**Gareth Llwyd**, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:**Godfrey Northam**, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ (Ffôn 600872)

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:**Owen G Jones**, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygyddion

Golygydd rhifyn y mis hwn gan

Dewi A. Morgan.Y golygydd ym mis **Medi** fydd**Carwyn Meredydd,**

4 Rhes Gordon, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NR.

07867 536102

carwynian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,****28 Awst** os gwelwch yn dda.

BYDD Y RHIFYN HWN YN CAEL EI

ARGRAFFU

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 16 Medi, yng Nghanolfan

Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Gwenllian

Gwenllian fach paid a crio,
Does na neb arall yn anghytuno,
Gei gipio o dy balas ddrud,
Heb wybod dy fod yn Gymraeg i gyd.Gwenllian fach paid a crio,
Cei weld dy dad unwaith eto.
Cofia fod yn glyd yn ei freichiau,
Arosa'n ddewr fel y Carneddau.Gwenllian fach paid a crio,
Mae pawb yn gwybod ei fod wedi dy effeithio,
Mae genod Cymru yn gweld dy werth,
Gad i ni gerdded yn llwybr dy nerth.Gwenllian fach, mae'n iawn i grio,
Cadwa dy ben i fyny a dal i freuddwydio
Dy fod dal yn cysgu yn dy balas ddrud,
Yn dy reddf ti'n gwybod dy fod yn Gymraeg i gyd.**Liwsio Mô,** Gerlan

i ddathlu dydd y Dywysoges Gwenllian

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Gorffennaf

£30.00	(99)	Dilys Parry, 1 Bryn Tirion, Rhiwlas.
£20.00	(67)	Sheila Owen, Dolhelyg, Talybont.
£10.00	(127)	Gaynor Elis-Williams, Ffordd Carneddi.
£5.00	(56)	Ann Evans, Penisarwaun.

Rhoddion i'r Llais

£100.00	Dr. John Llewelyn Williams, Ffordd Bangor, Bethesda.
£20.00	Griffith Charles Morris, Rhos y Nant, Bethesda.
£10.00	Alan Puw, Arllechwedd, Bethesda.
£5.00	Alwenna Puw, Arllechwedd, Bethesda.
£5.00	Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.
£20.00	Er cof am Emyr Roberts, Ffordd Ffrydlas, oddi wrth y teulu.
£20.00	John a Nia Bagnall, Pennard, Llandygai.
£20.00	John Ffrancon Griffith, Abergele
£5.00	Sheila Owen, Dolhelyg, Talybont.

Diolch yn fawr

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Lmythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thori coed

Asiant system gwresogi trwy

losgi coed

01248 605207

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r
deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch
am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai
dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag
un o'r canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22**Ewrop** – £30**Gweddill y Byd** – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Llythyrau

ANNWYL OLYGYDD

Diolch yn fawr am erthygl ragorol leuan Wyn yn rhifyn Mehefin o 'Llais Ogwan'.

Rydw i wedi cerdded y Carneddau ers blynyddoedd bellach, ac wedi dod yn gyfarwydd â nifer o'r mannau a enwir gan leuan, ond nid pob un o bell ffordd. Fe all fy mod wedi cerdded trwy/heibio i'r lleoedd hyn heb fod yn sylweddoli hynny. Ac wrth gwrs mae cymaint o swyn hudolus yn yr enwau.

Felly fe hoffwn yn fawr, ac rydw i'n siŵr y byddai eraill o ddarllenwyr 'Llais Ogwan' yn cytuno â mi, pe baech chi'n cymell leuan i unio atodiad i'w erthygl i ddangos i ni'n union ble mae'r mannau hyn y mae'n cyfeirio atynt. Fe fyddai hynny'n sicr yn cyfoethogi unrhyw daith gerdded arall yn y Carneddau, ond yn ogystal â hynny fe fyddai'n gofnod gwerthfawr iawn i holl drigolion y dyffryn.

John Ffrancon Griffith, Abergele

ANNWYL DDARLLENWYR

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, **Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad**, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn cronicle hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac


erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Gwenan Creunant

Ffôn: 01970 612806

E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

Newid ysgol

Mae amryw o'r ysgol yn symud yn mis Medi, yn eu plith mae Becky Brown o'r Pentref. Pob hwyl i ti Becky.

Newid Aelwyd

Rydym yn dymuno'n dda i Mrs Joan Beer

sydd wedi symud o'r Pentref i Cae Garnedd, Penrhosgarnedd.

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs Liz Jones o 21 Pentref a'r genod, Tina a Danni a'r teulu. Bu farw gŵr Liz, Mr Merfyn Jones, yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn gyda Mrs Linda Evans, Rhif 13. Bu farw ei llysdad, Mr Mansell Jones o Hiraef, yn ystod y mis.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái

Cyfarchion

Gyrrwn ddymuniadau gorau i ddarllenwyr y Llais; mwynhewch seibiant yr haf a'r wlad hyfryd o'n cwmpas. Cyfarchion arbennig i bawb sy'n wael neu yn disgwyl triniaeth yn yr ystyby.

Clochdy St Tegai

"Mwynach na hwyrol garol o glochdy Llandegai" medd R Williams Parry ac ategwn "yw atgyweirio'r trydan yn y tŵr"! Pam, dydwch? Diolch i Jones & Whitehead am gwblhau gwaith clodwiw i adnewyddu'r trydan i wneud y tŵr yn saff ar gyfer ein clochyddion. Fel y gwyddoch, St Tegai yw'r unig glochdy 6 cloch gweithredol yng nghyffiniau Bangor a Dyffryn Ogwen felly mae'n bwysig i ni aros yn ganolfan ar gyfer ein criw o glochyddion ac ar gyfer grwpiau o glochyddion o ardaloedd eraill <https://www.facebook.com/LlandegaiBellringers>. St Tegai oedd clochdy mis Mawrth yng nghalendr "The Ringing World" 2021.



Gwaith Atgyweirio

Mae'r eglwys yn parhau ar gau oherwydd y gwaith atgyweirio ond yn anffodus mae'r bwrlwm wedi dod i ben dros dro eto oherwydd triniaeth meddygol difrifol i sawl aelod o'r cwmni. Gyrrwn ein dymuniadau gorau i William Taylor a'i gwmni saer maen ar gyfer gwellhad buan. Mae eu gwaith hyd yma wedi bod yn rhagorol.

Diolch

Diolch eto i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor ffyddlon i

Apêl Diwrnod Rhodd St Tegai ym mis Mehefin.

Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygái, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygái, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Os gwelwch yn dda os ydych yn dymuno cyfrannu i gynnal a chadw'r eglwys a'i mynwent a wneuch chi ysgrifennu eich enw llawn, cyfeiriad, côd post ac e-bost ar y rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys. Anelir i gydnabod pob rhodd yn bersonol.

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái yn ystod y gwaith Atgyweirio

Yn ystod cyfnod y coronafirws a'r atgyweirio mae aelodau'r gynulleidfa wedi cadw mewn cysylltiad clos drwy e-bost ac wedi ymuno pob Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr Archddiacon yn wythnosol drwy e-bost. Erys Eglwys St Tegai ar gau hyd nes bydd y gwaith Atgyweirio Rhan 1 wedi ei gwblhau. Am fanylion gwasanaethau yn eglwysi Bro Ogwen, rhaid cysylltu gydag wardeniaid Glanogwen, Pentir, Tregarth, Mynydd Llandegai a St Cross Talybont. Diolch i'r Archddiacon Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar lein.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwennydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod T Yr Urdd eleni ac yn arbennig i'r rhai fu'n llwyddiannus.

Bu Besti Lŵ Myfanwy, Gwennydd yn brysur iawn yn sgwennu a cafodd gyntaf yng nghystadlaeth Cyfansoddi Sgript Blwyddyn 6 ac iau. Da iawn chdi!

Bu hi a rhai o'i ffrindiau yn Ysgol Pen y Bryn hefyd yn cystadlu yng nghystadlaeth yr ymgom. Nhw ysgrifennodd y sgript, ei

ffilmio a'i berfformio. 'Roedd yn braf cael gwyllo'r cystadlu ar y teledu a sgwrs efo Betsi ac fel pob cystadlaeth arall, 'roedd yn anodd iawn penderfynu pwy fyddai'n cael y wobwr gyntaf. Llwyddodd y ffrindiau i ennill yr ail wobwr – dwi'n siŵr bod eich teulu a'ch ffrindiau yn falch iawn ohono chi.

Llwyddiant arholiadau

Er nad yw canlyniadau TGAU a Lefel A swyddogol allan eto, mae'n amlwg o asesiadau'r ysgolion bod pobl ifanc y pentref wedi gwneud yn wych yn eu pynciau dewisol ac wedi llwyddo i serennu unwaith eto mewn cyfnod anodd iawn. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd ac edrychwn ymlaen i glywed am eich hynt a'ch newyddion dros y misoedd nesaf.

Mynydd Llandygai

Llongyfarchiadau

Dwi'n siŵr ein bod yn llongyfarch plant yr ardal i gyd sydd wedi eistedd arholiadau TGAU yn ystod yr amser heriol yma.

Da iawn chi a phob dymuniad da iddynt yn eu cam nesaf.

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Record Byd!

Mae Glynne Jones yn prysur wneud enw iddo'i hun fel bridwr cŵn defaid. Mewn arwerthiant 'ar lein' ym Marchnad Skipton yn ddiweddar, gwerthwyd Pentir Lassie, ci defaid 9 wythnos oed am £7,600.

Roedd y pris yn record byd am gi bach a bydd ei gartref newydd gyda hyfforddwr cŵn ger Preston, Swydd Gaerhirfryn.

Mynwent Eglwys Sant Cedol

Dros ffordd i fynedfa'r fynwent mae bedd nodweddiadol. Yma claddwyd 'Judeth Griffith, yr hon a fu farw Ebrill 3, 1883, yn 80 ml oed'.

Mae'n amlwg mai hi oedd y fydwraig leol yn ardal Rhiwlas a Phentir, hyn i gyd cyn unrhyw ddarpariaeth feddygol rydym ni heddiw yn dibynnu arni. Mae'r beddagraff yn nodi ei bod wedi helpu geni 583 o fabanod. Dipyn o ddynes!

Hefyd, yn y bedd mae gweddillion ei gŵr, Hugh Griffith a fu farw blwyddyn yn union ar ôl ei wraig. Beth sydd yn hynod am y manylion ar ei gyfer, ydy ei fod wedi ysgrifennu pennill iddo'i hun, fel a ganlyn:

Yn y bedd y caf orffwyso
Hyd nes cano'r udgorn mawr
Pryd y deuf byth o honno
Gan ddisgleirio fel y wawr.

Glasinfryn a Chaerhun

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Caio Dylan Parry ar lwyddo i basio arholiad piano gradd 1 gydag anrhydedd.

Da iawn chdi Caio.

Rhoi gwybod i crimestoppers am werthu cynhyrchion dan oed yn anghyfreithlon

Gall trigolion a busnesau ledled Cymru sy'n credu bod rhywun wedi prynu neu werthu cynhyrchion dan gyfyngiadau oedran i berson dan oed hysbysu Crimestoppers yn ddiennw erbyn hyn.

Mae Safonau Masnach Cymru a'r elusen Crimestoppers wedi ymuno i ddarparu gwasanaeth sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddarparu gwybodaeth werthfawr yn ddiennw i helpu i gadw cymunedau'n ddiogel ac yn iach.

Dyma'r mater diweddaraf y mae'r ddau sefydliad yn gweithio arno i annog aelodau o'r cyhoedd i drosglwyddo gwybodaeth am bryderon a allai fod ganddynt, yn gwbl ddiennw.

Mae cynhyrchion cyfyngedig oed yn cynnwys:

- Alcohol
- Cynhyrchion tybaco gan gynnwys sigarêts, tybaco, papurau sigarêts a sigarennau
- E-sigarêts
- Tân gwyllt
- Cyllyll, llafnau cyllyll, llafnau ymyl agored, bwyceill

- Glud, aerosolau, hylifau glanhau domestig, hylifau glanhau sych, glanhawyr a theneuwyr paent.

Dyweddod Helen Picton, Cadeirydd Safonau Masnach Cymru: "Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Crimestoppers ac yn cynnig ffordd i aelodau'r cyhoedd allu rhoi gwybod am y troseddau hyn yn ddiennw.

"Mae isafswm oedran prynu'n berthnasol i'r cynhyrchion dan gyfyngiadau oedran gan eu bod yn cael eu hystyried yn niweidiol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.

"Nid yn unig y mae gwerthu'r cynhyrchion hyn yn drosedd, ond maent hefyd yn niweidio lles ein plant ac yn tarfu ar gymunedau."

Os ydych chi'n credu bod rhywun wedi prynu neu werthu cynhyrchion dan gyfyngiadau oedran i berson dan oed yna rhowch wybod i Crimestoppers ar 0800 555 111 neu ewch i <http://crimestoppers-uk.org> a dywedwch wrthyn nhw beth rydych chi'n ei wybod. Gall eich gwybodaeth helpu i gadw cymunedau ledled Cymru'n ddiogel.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE
(01248 605582 a 07887624459)
henbarc13@gmail.com

Bu nodyn yn ffenestr tafarn y Dderwen Frenhinol (Royal Oak) Rachub i ddweud bod y lle ar gau, ond rydym yn deall bod teulu lleol wedi cymryd yr awenau ac ail agor ddiwedd Mehefin. Gobeithio y bydd hyn yn arwain i lwyddiant a dyfodol diogel i'r busnes.

Dymunwn yn dda i Edric Jones, 1 Tan y Garth wedi iddo ddod adref ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda hefyd i Carol, 4 Bron Bethel wedi iddi ddod adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, hefyd i Rita Harris, Bryn Bella ar ôl anhwylder yn dilyn ei llawdriniaeth.

Diolchwn i Angharad Berkely, 58 Maes Bleddyn am godi £365 at Gymdeithas Alzheimers trwy gynnal bwrdd cacennau a raffl wrth ymyl ei thŷ.

Diolchwn hefyd i gynghorwyr Llafur Rachub, perchnogion Siop Rachub a Chyngor Bethesda am i ni gael diffibriliwr y tu allan i'r siop.

Da oedd gweld goleuadau fel goleuadau Nadolig mewn sawl gardd i'n helpu ni i godi ein calonnau yn ystod y cyfnod Covid diweddaraf.

Cafwyd cwyn am fod gweithwyr Cyngor Gwynedd wedi gadael gwair ar y beddau ar ôl ei dorri ym mynwent Coetmor. Mae Cyngor Bethesda yn ymdrin â'r mater.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn Cae Rhosydd yn achosi anghydfod am fod y cynllun i godi 15 tŷ ar rent ac 16 tŷ ar werth wedi cael ei ddisodli gan gynllun i godi 30 o dai ar rent, heb ymgynghori â'r trigolion am y bwriad i newid y cynllun. Y mae Cyngor Llandygai, Cylch yr Iaith a Chyngor Bethesda wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ac Adra i geisio newid y sefyllfa.

Carmel, Llanllechid

Ar yr 20fed o fis Mehefin, mi wnaethom ni agor y Capel i gynnal oedfaon unwaith eto. Y gweinidog a oedd yn cymryd y gwasanaeth. Roedd hi'n braf iawn cael addoli yn y gynulleidfa unwaith eto.

Ar yr 21ain o fis Mehefin, mi gawsom ni gyfarfod am gwpanaid, bisgedi a sgwrs yn yr awyr agored y tu allan i ysgoldy Carmel. Daeth tua 30 o gyfeillion yno, yn ferched y Dosbarth Gwau yn ogystal â rhai o ffyddloniaid y Te Bach. Mi wnaethom ni werthu eitemau o waith y dosbarth – blancedi, dillad baban,

capiau, sgarffiau, ac ati. Roedd yna raffl ac mi gawsom ni lawer o roddion hael at yr achlysur. Mi wnaethom ni benderfynu rhoi £100 o'r cyfanswm at waith Cymorth Cristnogol.

Trefnwyd dau weithgarwch ar y 25ain a'r 27ain o'r mis sef taith gerdded i'r mynydd i Glwb Dwylo Pysur, a phicnic bach i orffen; a sesiwn yn yr awyr agored i gyfarfod am y tro cyntaf eleni a chloi'r Ysgol Sul am yr haf yng nghae chwarae Rachub. Ein gobaith ni yw aildechrau cyfarfodydd rheolaidd yr Ysgol Sul dan do yn nhyrnor yr hydref.



Diolch

Hoffem ddiolch i Helen Williams, Wendy Eccles a Stella Davies am eu gwaith da yn peintio "railings" Capel Carmel yn lliw arian.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Betty Wyn Williams, Fferm Bryn Owen, Llanllechid wedi iddi farw yn dawel yn ei chartref yng

nghwmni ei theulu yn 88 mlwydd oed. Cynhaliwyd y cynhebrwng yn Amlogsgfa Bangor.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dilwyn Pritchard (2 Bron Arfon) ar ei radd M.A. gyda Rhagoriaeth mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Betsi Hoyland, Beca Pritchard, Elin Thomas a Math Iolen Rhys o Ysgol Penybryn am ddod yn 2il yn Ymgom Bl6 ac iau yn Eisteddfod T yr Urdd eleni. Diolch arbennig i Betsi am sgwennu'r sgrïpt! Da iawn chi, rydym i gyd yn falch iawn o'ch llwyddiant!

Ysbyty

Cofion gorau am wellhad buan i William Morris, Stâd Coetmor, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl yn derbyn triniaeth.

Dymuniadau gorau i James Rowlands, 42 Abercaseg, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Cofion gorau hefyd at gyfeillion sy'n sâl gartref, sef; Mr. Phillip Williams, Penybryn; Mrs. Rita Evans, Erw Las; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mrs. Shirley Pritchard, Pantglas; Mrs. Elsie Evans, Garneddwen; Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas a Mrs. Joan Griffiths, Glan Ffrydlas.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Teulu'r ddiweddar Mrs. Pamela Roberts, Gerlan, a fu farw ar 15 Mai.

Teulu'r ddiweddar Doreen Williams, Porthaethwy.

Teulu'r ddiweddar Eileen Pritchard, Tregarth, sef ei brawd, Gerald a'r teulu Ffordd Stesion.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs. Violet Glynne Jones, Penmaenmawr, a fu farw ar 8 Mehefin yn 67 mlwydd oed. 'Roedd yn ferch i'r diweddar Mr. Tom Glynne a Viola Jones, Bethesda. Yn chwaer i Helen, Denis, David a'r ddiweddar Heulwen, ac yn fodryb garedig. Bu'r angladd ddydd Llun, 21 Mehefin yn Amlogfa Bangor.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs. Betty Williams, Llanllechid.

Marwolaethau

Alaw Jones

Yn dawel yn ei gartref, 1 Parc Moch, Bethesda, ar 29 Mai, bu farw Mr. Alaw Jones yn 80 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Betty Jones, brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr hoffus, a mab y diweddar Mr. Elwyn a Mrs. Lillian Jones. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 7 Mehefin, gyda gwasanaeth i'r teulu a chyfeillion agos yng nghapel Carmel, Llanllechid, ac yna ym mynwent Coetmor. Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams oedd yn gwasanaethu. 'Roedd Alaw yn arbenigwr ar adeiladu waliau cerrig, ac yn hoff iawn o arddio. Bu'n beirniadu cystadlaethau blodau a chynnyrch gardd mewn sawl sioe dros y blynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i briod annwyl, Betty, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr o golli Alaw.

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau

Bellach mae'r patrwm am wasanaethau wedi ei sefydlu i gael Gwasanaeth Cymun ar y 3ydd Sul o'r mis, a gwasanaeth pob Bore Mercher am 10.30, gyda chyfle i gael sgwrs ar ôl, ac fel arfer mae croeso cynnes i bawb i ymuno. Byddwn yn dal i dderbyn rhoddion at y Banc Bwyd – bob amser yn cael croeso.

Atgyweirio

Mae Cronfa Atgyweirio Glanogwen wedi ei sefydlu bellach gan ddechrau'r ymgyrch codi arian er mwyn gwneud yr holl waith sydd ei angen ar yr adeilad. Bydd apêl yn mynd allan yn y man am gefnogaeth o'r gymuned, a mae'n diolch yn fawr iawn i Clare Morrison, sydd eisoes wedi cychwyn safle Paypal i dderbyn rhoddion, gan drefnu raffl dros fis Gorffennaf i gefnogi hyn. Diolch o galon, Clare – mae'n fendith meddwl fod rhywun lleol yn fodlon estyn llaw.

Mae'r Amlenni Rhodd wedi eu dosbarthu bellach am y flwyddyn nesaf, a'n diolch fel arfer yn mynd i bawb – gan gynnwys rhai o'r newydd eleni – sydd yn cyfrannu'n gyson. Y rhoddion hyn sydd yn talu'n ffordd, felly mae pob cyfraniad yn wirioneddol werthfawr. Os oes rhywun yn awyddus i gael ymuno, rhowch ganiad er mwyn trefnu.

Diolch hefyd i'r rhai hynny sy'n dal i gyfrannu at gadw'r mynwentydd yn daclus, ac i Arwel ac Ian am eu gwaith di-flino yn mynwent Glanogwen – mae pob mymryn yn help.

Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl yn eu cartref neu'r ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan a chysur i bawb.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETHI DYDD A NOS

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a rwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537



Yr Eglwys Unedig

Gwasanaethau

Hyfryd yw cael datgan bod y Capel ar agor yn rheolaidd unwaith eto ar gyfer oedfaon y Sul. Oherwydd y cyfyngiadau angenrheidiol parthed glanweithdra, iechyd a diogelwch, penderfynwyd mai un oedfa yn unig a gynhelir bob Sul ar hyn o bryd, gan barhau i ddarlledu dros y ffôn hefyd ymhob cyfarfod, er mwyn i'r rhai sydd yn methu dod atom yn gorfforol gael y cyfle i dderbyn bendith o'r gwasanaethau. 'Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r rhai sydd yn ein gwasanaethu am eu parodrwydd i gydsynio â'r trefniadau hyn. Gweler isod y calendr arfaethedig am y misoedd sydd i ddod – ond cofier y gall y sefyllfa newid ar fyr rybudd, gan nad ydym wedi gweld diwedd y pandemig eto.

Yr Ysgol Sul

Pleser yw cael cyhoeddi y bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar ei newydd wedd – erbyn i'r Llais ddod o'r wasg, bydd bore o weithgareddau wedi'i gynnal yng ngardd y Capel, a gobeithiwn yn fawr y bydd criw da blant wedi mynychu'r digwyddiad hwnnw – yn aelodau presennol a newydd. Mae croeso cynnes iawn i bawb!

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at y rhai sydd yn dioddef o anhwylder, boed hynny yn eu cartrefi, cartrefi preswyl neu ysbytai – 'rydym yn meddwl amdanoch.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Buddug Watcyn Roberts ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg o Brifysgol Bangor. Bydd Buddug yn awr yn mynd ymlaen i wneud gradd Meistr – dymunwn yn dda iddi wrth iddi barhau â'i thaith academaidd.

Yr Adeiladau

Fe sylwoch, mae'n debyg, ar y prysurdeb a fu ar hyd un o'r llwybrau sydd yn arwain at y Capel. O'r diwedd, ac wedi misoedd o aros, mae cyflenwad nwy wedi'i gysylltu o'r brif bibell ar yr A5 i'r Tŷ Capel, a gobeithiwn y bydd Nic a Sioned a'r teulu bach yn ddiddos yn eu cartref o hyn ymlaen.

Gwasanaethau'r Sul (Pob un yn y Capel ac ar y ffôn)

Gorffennaf 18: Y Parchedig Ddr Elwyn Richards (5)

Gorffennaf 25: Trefniant mewnol (10)

Awst 1: Trefniant mewnol (5)

Awst 8: Trefniant mewnol (10)

Awst 15: Trefniant mewnol (5)

Awst 22: Y Parchedig Geraint Roberts (10)

Awst 29: Trefniant mewnol (5)

Medi 5: Trefniant mewnol (10)



Medi 12: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)

Medi 19: Gwasanaeth Teuluol (10)

Gwyliau

Gan na fydd y Llais yn ymddangos eto hyd ddiwedd yr haf, dymunwn 'haf hirfelyn tesog' i bob un ohonoch, gan ddeisyfu cael deffro bob dydd i obaith newydd. Dyma englyn o waith Y Parchedig J Eirian Davies:

WRTH DDEFFRO

Ar harddwch muriau'r wawrddydd – ail-agor

Dau lygad o'r newydd;

Plygu pen ar obennydd,

Moli Duw am olau dydd.

HWYL YR HAF

Daeth criw da i fwynhau gemau a chrefftau

yn festri Capel Jerwsalem fore Sul 4ydd o Orffennaf. Bu'r plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol ac ymarfer sgiliau crefftwaith - paentio, torri a siapio – ac yn cydweithio i greu darn o gelf mawr yn dehongli mynyddoedd yr ardal. Yn ogystal, roedd cornel liwio ar themâu Beiblaidd, ynghyd â gweithgareddau amrywiol fel gemau pêl ac arbrofi cydbwysedd a disgyrchiant. Roedd y gêm Jenga mawr yn boblogaidd hefyd. Trefnwyd diod a chreision i'r plant, a choffi i'r oedolion gan Gaffi Seren.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul 12fed o Fedi am 10 y bore ac edrychwn ymlaen at groesawu'r plant.

Gair neu ddau - John Pritchard

Dal i Lefaru

Mae papurau newydd a gwefannau di-rif yn cyhoeddi pythiau difyr sy'n nodi pethau a ddigwyddodd ar ddyddiad penodol. "Ar y dydd hwn y digwyddodd peth a peth" ym myd gwleidyddiaeth neu'r celfyddydau neu chwaraeon. Gwnaeth y Parchg Ddr R. Tudur Jones beth tebyg mewn cyfrol a luniodd ar gyfer cyfres flynyddol o lawlyfrau a gyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Roedd Gweddio 1992 yn dilyn patrwm arferol y gyfres o ddarparu ar gyfer pob wythnos o'r flwyddyn ddarlleniad neu ddau o'r Beibl ynghyd â myfyrdod a gweddio.

Ond yr oedd i'r gyfrol honno elfennau ychwanegol i'r arfer. Yn ei ragair iddi meddai'r awdur, 'Ychwanegwyd dyfyniad byr ar bob tudalen y gellir ei drafod neu ei drysori yn y cof. Ar waelod pob tudalen nodir rhai

digwyddiadau o bwys, gan fwyaf yn ymwneud â Christnogaeth. Bwriedir y crybwyllion hyn i'n hatgoffa am ein gorffennol ... Ambell dro byddwn yn gofyn i ni ein hunain, "A ddigwyddodd rhywbeth o bwys ar gyfer yr wythnos hon?" Dichon y bydd y calendr ar waelod y tudalennau'n ateb y cwestiwn hwnnw ac yn ysbrydoli ambell ddathliad.'

Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach mae'r gyfrol a'r 'crybwyllion' yn dal yn werthfawr a'r cyfan yn atgoffa'r cyfarwydd o gyfraniad cyfoethog Dr Tudur i fywyd crefyddol a diwylliannol Cymru. Dyma gyfrol fechan a ddaeth â dysg a defosiwn a diwinyddiaeth a dawn lenyddol Prifathro Coleg Bala-Bangor i ddwylo cannoedd o ddarllenwyr ledled y wlad.

Ar gyfer wythnos olaf Mehefin eleni gallasid ychwanegu at

galendr o'r fath: 'Ganrif yn ôl, ar 28 Mehefin 1921 ganwyd Robert Tudur Jones, y gweinidog a'r diwinydd a'r hanesydd, yn Nhyddyn Gwyn, Rhoslan'. A chanrif union i ddyddiad ei eni daeth teulu a chyfeillion ynghyd ar libart Tyddyn Gwyn i gofio ac i ddiolch i Dduw amdano. Braint i mi oedd cael bod yno yng nghwmni'r trefnwyr a'r teulu a theulu presennol Tyddyn Gwyn, Mrs Dora Jones a'i merch Mair.

Ymhlith y pethau a glywyd yn y cyfarfod oedd y sylw a wnaed gan Dr Tudur ei hun wrth goffau gweinidog yr oedd ganddo barch mawr ato ac a ddefnyddiwyd gan Dduw i'w ddwyn ef i argyhoeddiad a ffydd yn Iesu Grist. Meddai am y diweddar Barchg T Glyn Thomas: 'Os tawodd y gwas, mae'r Meistr yn dal i lefaru'. Trwy ei gyfrolau niferus, y mae Tudur Jones yn dal i lefaru am

Dduw a'i benarglwyddiaeth, am Iesu Grist a'i waith achubol, am yr Ysbryd Glân a'i ddylanwadau ac am yr Eglwys Gristnogol a'i bywyd a'i thystiolaeth dros y canrifoedd.

Anodd meddwl bod tair blynedd ar hugain ers marwolaeth Dr Tudur, ac o gofio cyfoeth ac ehangder ei gyfraniad mae'n sobri dyn i gofio nad oedd ond 77 mlwydd oed pan fu farw ar 23 Gorffennaf 1998. Wrth nodi canmlwyddiant ei eni, diolchwn o'r newydd amdano ac am y sicrwydd sydd gennym mai ei lawenydd ef o hyd yw bod y Meistr y bu'n ei wasanaethu mor ffyddlon, yr Arglwydd Iesu Grist, yn dal i lefaru. A chraidd y llefaru hwnnw o hyd, yng ngeiriau'r Apostol Paul (o Effesiaid 2:4) a fu'n destun i bregeth Dr Tudur ar fwy nag un achlysur, yw 'Eithr Duw'.


Calendr Llais Ogwan 2022

Calendr ar gyfer Calendr 2022 - lunedi ym 31 Gorffennaf 2021, se gwelwch ym 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31 Gorffennaf 2021. Byddi chi'n gweld ym 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31 Gorffennaf 2021.

Unbau fformetirkin, se gwelwch yn ôl

Cofrestr:

- nodi dydd i'w gwneud yn dda
- nodi dydd i'w gwneud yn dda
- nodi dydd i'w gwneud yn dda



Delennach eiddo (un) ym 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31 Gorffennaf 2021.

Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref - tybed fydd eich llun chi ynddo fo?

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgym,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Traclo

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor,
Tregarth (600192)

Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth (601544)

Gwenda Davies, Llanfairpwll
(gwendaglyn@hotmail.com)

Profedigaeth

Trist iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Alaw Jones, Parc Moch, ar Fai 29, yn 80 mlwydd oed a chydymdeimlwn gyda'i wraig Betty, ei frodyr a'i chworydd a'r holl deulu yn eu galar. Roedd Alaw yn adnabyddus iawn yn Nyffryn Ogwen fel adeiladwr waliau cerrig crefftus dros ben ac fel garddwr hynod broffesiynol. Byddai galw arno yn aml i siarad am ei ardd a'r llyisiau a blodau bendigedig a dyfai ym Mharc Moch. Cawsom glywed ei lais ar Radio Cymru ar fwy nag un achlysur yn siarad am ei waith a'i ddiddordebau. Roedd yn fab i'r diweddar Elwyn a Lilian Jones a bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Carmel Llanllechid ar Fehefin 27.

Ar Fai 27 yn Ysbyty Gwynedd, Bangor bu farw Eileen Pritchard, 14 Erw Faen yn 84 oed. Roedd yn fam i Abigail (Gail) a Tanya ac yn Nain a Hen Nain a chwaer i Gerald.

Bu ei hangladd yn Eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth ac yn dilyn yn Amlogfa

Bangor. Cydymdeimlwn gyda theulu Eileen yn eu colled.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau haeddiannol iawn i Rhiannon Gwyn, merch Bethan Gwyn a'r diweddar Gwynfor ap Ifor, Capel Gorffwysfa, Sling am ennill y brif wobr i Artist yn Eisteddfod Rithiol yr Urdd a gymerodd le ym Mis Mai. Mae gwaith Rhiannon yn werth i weld a'n gobaith y cawn gyfle yn fuan i weld arddangosfa o'r gwaith.

Capel Shiloh, Tregarth

Mae'r gwasanaethau ar Nos Sul wedi digwydd yn Shiloh ers rhai wythnosau bellach ac mae'n dda i bawb ddod at ei gilydd i gael bendith o Oedfa. Diolch i bawb fu'n cymryd y gwasanaethau yn ystod y cyfnod ansicr yma a'n gobaith ydi parhau i gynnal gwasanaeth gan gadw'n saff rhag y Cofid. Diolch o galon i Wyn, Tyddyn Dicwm am ofalu am y gwres yn y capel bob Sul ac i Ffion Rowlinson sydd wedi gweithio mor galed yn sicrhau ein bod yn dilyn yr holl ganllawiau gofynnol.

Gwasanaethau

Gorffennaf 18 Glyn Owen, Llanwnda

Gorffennaf 25 Dr Jennie Hurd

Mis Awst Dim gwasanaethau

Medi 5 Richard Gillion

Medi 12 Trefniant Lleol

Medi 19 Philip Barnett, Swydd Efrog

Medi 26 Gwyndaf Jones, Bangor

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Fel aelodau o'r gangen leol rydym i gyd yn falch iawn o glywed fod ein Llywydd Lleol, sef Myfanwy Harper, Llandygai, yn gwella wedi cyfnod o lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y mis diwethaf. Da deall ei bod adra a bod yr hogia o'i chwmpas i gyd yn tendio arni! Braff fydd cael cyfle i'w gweld eto yn fuan pan ddown at ein gilydd yn y dyfodol agos, gobeithio. Mawr yw ein diolch i Myfanwy ac Alison am gysylltu hefo'r newyddion i ni i gyd.

Blin oedd clywed am y ddamwain car gafodd Nesta Llwyd, Ton Teg, Tal y Cae, a mawr obeithiwn y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Cofion atat Nesta.

Ar hyn o bryd does dim cynlluniau i ail gychwyn cyfarfodydd y gangen ym Mis Medi ond gobaith y pwyllgor yw aros nes y bydd yn saff i ni i gyd ddod at ein gilydd yn Shiloh.

Llongyfarchiadau i bobol ifanc yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau coleg ac ysgol neu mewn gwaith, a phob dymuniad da i'r dyfodol gan griw lleol Merched y Wawr.

Gwyliau haf braff a saff i chi i gyd. Fe ddaw y diwrnod y cawn gyfarfod unwaith eto!

WELSH SLATE
Part of the Breedon Group

Gall patios droi eich gardd yn lle allanol i fyw, i ymlacio, mwynhau neu weithio tu allan



**CLADIO PALMANTAU TOEAU
LLORIAU WALIAU TIRLUNIO**

Mae Welsh Slate ar gael i brynu ar-lein ar www.ukstonedirect.com

Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor Gwynedd, LL57 4YG
Ffôn 01248 600656

Ysgol Llanllechid

Ymddeoliad

Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Mrs Marian Jones, ar ôl rhoi gwasanaeth clodwiw i Ysgol Llanllechid, ar hyd y blynyddoedd. Diolchwn iddi am ei gwaith rhagorol a diflino yma hefo ni. Byddwn yn anrhegu Mrs Jones ar ddiwedd y tymor hwn, ac fe gewch yr hanes i gyd yn rhifyn Medi o'r Llais.

Sefyllfa Covid

Mae'r dyddiau heriol yn parhau wrth i achosion o Covid gynyddu yn yr ardal unwaith yn rhagor. Diolch i'r rhieni i gyd am eu am cydweithrediad parod a'u cymorth yn ystod y dyddie dyrys yma.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elsi Allsup ar ei champ yn ennill cystadleuaeth gan Heddlu Gogledd Cymru, sef dylunio poster ar y We. Bu cystadlu brwd, a dyfarnwyd poster Elsi fel yr un gorau! Bendigedig Elsi!



Elsi hefo'i thystysgrif wrth y ffrâm ddringo bren

Baban Bach

Llongyfarchiadau i Mr Iwan a Manon ar enedigaeth eu mab bach, Gweirydd. Edrych ymlaen yn fuan at gael gweld Gweirydd bach! Llongyfarchiadau i chi fel teulu.

Teithiau

Er gwaethaf pawb a phopeth, cafwyd teithiau lu: i gopa Moel Faban; Glanllyn; Dinas Dinlle; Cwm Idwal; Caernarfon; Penmon a Biwmares a mwy. Os ydych am weld y cyfan – croeso i chi fynd draw i'n cyfrif trydar @ysgllanllechid

Y Falwen Fawr

Diolch i Anti Gillian am ei rhodd i'r Ysgol, sef malwoden anferthol Affricanaidd! Mae'r plant i gyd wedi gwirioni hefo hi ac yn synnu ati'n tyrchu yn y pridd! Mae'r plant wedi penderfynu ei galw yn Hanc – aelod newydd i ddsbarth Mrs Rona Williams!



Y Falwen Affricanaidd

Dymuniadau Da

Dymuniadau da i bob un ohonoch dros yr haf. Fe welwn y plant yn nol yn yr ysgol ar Fedi 2il, tan hynny, hwyl fawr a chadwch yn ddiogel.

Brawd a Chwaer yn Cyrraedd y Brig

Llongyfarchiadau gwresog i Gwenno a Gruff Llwyd Beech ar eu camp yn yr Eisteddfod T eleni. Gwych iawn! Derbyniodd Gwenno y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru unigol B14, 5, a 6 ac fe gafodd Gruff y drydedd wobwr am ganu unawd I F14, 5 a 6. Sefyllfa hollol unigryw ddaeth i'r amlwg yn y gystadleuaeth gerdd dant, gyda'r ddau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Gruff gipiodd y wobwr gyntaf a Gwenno'r drydedd wobwr! Anhygoel! Llongyfarchiadau anferthol i chi eich dau!



Gruff a Gwenno - llwyddiant yn yr Urdd

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yng nghanol mis Mai ar Zoom, a chyhoeddwyd bod tua cant o aelodau yn y dyffryn a bod sefyllfa ariannol y gangen yn iach.

Cafwyd adroddiadau am Lywodraeth Cymru (e.e. y llwyddiant efo pump addewid etholiad 2016 a manylion am y pump addewid yn etholiad 2021), Cyngor Gwynedd (e.e. codi trethi 3.7% yn hytrach na 3.1% er mwyn caniatáu mwy o bidiau gan yr adrannau, codi'r dreth ychwanegol ar ail gartrefi i 100% er mwyn adeiladau mwy o dai fforddiadwy) a Chyngor Bethesda (e.e. gosod diffibriliwr mewn sawl lle a'r methiant i gynnal clwb ieuencid hyd yn hyn).

Cafwyd trafodaeth ar y gyfundrefn "rhestr fer o ferched yn unig", sy'n cael ei weithredu mewn etholiadau ar gyfer sefydliadau â phrinder sylweddol o ferched.

Penderfynwyd cynnal y daith gerdded nodedig flynyddol ar ddechrau mis Gorffennaf i godi arian at etholiadau sirol a lleol y flwyddyn nesaf.

Yn mis Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod pob aelod o Blaid Lafur Arfon ar Zoom, gyda nifer o bobl leol yn bresennol. Penderfynwyd dewis K.C. Gordon, Llanllechid i gynrychioli'r etholaeth yng nghynhadledd flynyddol Plaid Lafur Prydain, a fydd yn Brighton yn yr Hydref. Hefyd, cafwyd areithiau difyr gan Donna Hutton am ei gwaith fel swyddog undeb ac ar Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru, gyda digon o gyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen ar yr 21ain o Orffennaf, gyda thrafodaeth ar "Perchnogaeth Cyhoeddus" wedyn.

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
(600853)

Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
(353500)

Dyma rifyn olaf 'Llais Ogwan' cyn gwyliau'r haf. Tybed pa ffurf fydd ar ein Papur Bro ym mis Medi? Er inni ddechrau arfer â chopi digidol bellach, rhaid cyfaddef nad oes curio ar bapur newydd 'go iawn'; nid gan bobl hen ffasiwn fel fi, beth bynnag!

Dathlu

Mae nifer o ddathliadau wedi bod yn y pentref yn ddiweddar, a rhai eraill ar y gorwel.

Bu Billy, 33 Cae Gwigin, yn dathlu ei ddeunawfed penblwydd ar y 4ydd o Fehefin. Cyrhaeddodd Maureen Evans, 6 Cae Bach, garreg filltir arbennig ar Fehefin 19eg, a bydd Christine John, 10 Cae Gwigin, yn dathlu ei phenblwydd arbennig hithau cyn diwedd y mis.

Dymunwn bob bendith iddynt un ac oll, ac i bawb arall fydd â rheswm i ddathlu cyn i'r 'Llais' weld golau dydd eto.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Linda a Keith, 81 Bro Emrys, ar ddod yn nain a taid unwaith eto.

Ganwyd hogyn bach i'w mab, Peter a'i wraig, Michelle. Rydw i'n siŵr bod Taylor, Zac a Layla wrthi'n brysur yn helpu mam a dad i ddewis enw ar eu brawd bach newydd. Llongyfarchiadau, hefyd, i Nain Gwenda sy'n byw ym Mangor.

Y mis diwethaf buom yn llongyfarch Carwyn, ŵyr Sheila Owen, Millbank, Dolhelyg, ar enedigaeth ei fab. Y tro hwn, estynnwn ddymuniadau gorau iddo am oes hir o yrru diogel, wedi iddo basio ei brawf yr wythnos o'r blaen.

Gwellhad buan!

Mae nifer o'n ffrindiau a chymdogion wedi ymweld â'r Ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt, ac i bawb arall sydd ddim yn eu llawn hwyliau ar hyn o bryd.

Shaky Bridge

Ers i'r Coronavirus newid cwrs bywyd pob un ohonom, mae llawer o drigolion Talybont wedi cael mwynhad mawr o gerdded llwybrau'r fro. Yn amlach na pheidio, byddwn yn croesi'r afon a mynd yn ein blaenau i Landygai, neu i Dyddyn Iolyn. Tybed, er hynny, faint ohonom sy'n gyfarwydd â hanes y bont, a elwir yn 'Shaky Bridge'?

Dyma bwt o hanes diddorol gan Margaret Fearnley, Helyg, a gafodd ei geni a'i magu yng Nghae Gwigin yn ystod pedwar-degaw a phum-degaw'r ganrif ddiwethaf.

Atgofion am y Bont

Yn y flwyddyn 1901, ymhell cyn fy amser i, daeth John Hughes, Prif-Felinydd Melin Penlan, ger Llandygai, i Felin Cochwillan, oedd newydd gael ei hail-adeiladu. Rhentu'r felin gan Ystâd y Penrhyn wnaeth o, a symud yno efo'i wraig a'i ddau fab. Y Penrhyn oedd biau'r holl dir ac adeiladau yn yr ardal bryd hynny.

Mewn rhai blynyddoedd, wedi iddo briodi, daeth Godfrey Hughes, un o'r meibion, yn gymydog i ni yng Nghae Gwigin. Bu farw yn 1985. Bu farw ei dad, John, yn 1955 yn 89 oed, a chafodd ei gladdu ym mynwent St. Cross.

Yn ystod y pedwardegaw, byddai'r ffermwyr lleol yn cario ŷd i'r felin efo cheffyl a throl. Os byddai'r melinydd yn brysur, byddent yn gadael yr ŷd yno am ddiwrnod neu ddau, a ninnau, blant y pentref, yn cael pas ar y drol wag i fyny'r allt.

Yr oedd melin ŷd ar safle Cochwillan ers tua 1560. Yn ôl Vernon Barker, a brynodd y Felin gan y Stâd yn 1956, bu Pandy yno am gyfnod. Yno trafodwyd y gwllân a'r carthenni a wnaed yn y ffatri gerllaw. Tŷ Glan yr Afon yw'r enw ar y safle bellach ond i ni, yn blant, Tŷ Ffatri oedd o. Caewyd y Pandy oherwydd bod yr asid a dywalltwyd i'r Afon Ogwen yn lladd y pysgod.

Dywedodd y diweddar Vera Hughes, o Dalybont, bod ei mam yn gweithio yn y ffatri yn dair-ar-ddeg oed. Daeth pobl yno o bob cwr o'r ardal, rhai'n cario brethyn i gael ei drin; rhai i weithio yn y ffatri, ac eraill i ymweld â pherthnasau yn y tai a'r ffermydd cyfagos. O gyfeiriad y gogledd, byddai'n rhaid croesi'r Afon Ogwen dros y Bombran Bren. Darn o bren go gul oedd hwnnw, a dim ond rhaff i afael ynddi i groesi. Serch bod hi'n beryg' bywyd, byddai'n cael ei difrodi'n aml gan lif di-drugaredd yr afon yn ystod misoedd y gaeaf.


Felly, yn 1926, cododd John Llywelyn Roberts y pwnc mewn cyfarfod o Gyngor Gwledig Ogwen, a phenderfynwyd codi pont sylweddol yn lle'r Bombran Bren. Yn y cyfamser, codwyd pont dros dro a elwid yn Shaky Bridge. Yn ddiddorol iawn, mewn oes pryd yr oedd bron pawb o'r ardal yn naturiol Gymraeg, enw Saesneg rhoddwyd ar y bont o'r cychwyn.

Dywedodd y diweddar Idris Roberts, a'i chwaer, Mabel Jones, wrthyf bod eu tad yn un o'r gweithlu a gododd y bont bresennol. Dywedodd hefyd bod y Stâd wedi hwyluso'r gwaith o gludo defnyddiau crai rhwng yr ardal o gwmpas y cwt mochyn a'r safle adeiladu, drwy roi menthyg rhywfaint o gledrau o reilffordd y Chwarel, a wagan efo digon o gebl dur i gyrraedd rhwng y ddau le. Mae'r cebl dur i'w weld heddiw, wedi'i blethu'n gelfydd rhwng y pyst concrît i ffurfio clawdd terfyn.

Daeth y lôn at y felin i ben wrth y cwt mochyn, a defnyddiwyd llwybr troed i



Y Bombran Bren – Yr hen Shaky Bridge (Sigledig)



Y Shaky Bridge newydd (Solat)

gyrraedd yr hen lôn A5 dros Shaky Bridge. Y llwybr hwn oedd y prif ffordd allan o'r pentref a'r ardal o'i gwmpas, oherwydd doedd bysbus Crosville ddim yn dod i Dalybont yn y dyddiau cynnar. Roedd y llwybr yn un caled, yn gymysgedd o gerrig wedi'u cywasgu, a gro mân. Y ffordd honno troediai'r chwarelwyr i ddal y bws 6:30 i Chwarel y Penrhyn, ac fel disgyblion yn Ysgol Dyffryn Ogwen, y ffordd honno byddem yn cerdded adref oddi ar y bws. Byddai pobl y pentref yn croesi'r bont i fynd at y Meddyg i Fethesda, neu i nôl neges. Mae'r llwybr, a'r bont, yn llawn atgofion hapus i ni. Mae'n rhan o'n hanes a'n hetifeddiaeth.

Welwch chi neb yn cario dŵr o'r ffrwd, neu'n gyrru'r gwartheg i fyny'r lôn o'r cae yn ymyl y felin, i gael eu godro, fel y gwnai'r diweddar annwyl William Jones, gwas fferm R. B. Evans, Pentrefelin, yn yr hen ddyddiau. Mae'r ffordd yna o fyw o wedi hen ddarfod bellach, ond gobeithio bydd gan y to newydd o blant Talybont atgofion llawn mor hapus â'n rhai ninnau am eu bro genedigol.

Margaret Fearnley 21.06.21

post@llaisogwan.com



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Eisteddfod T

Bu'r Eisteddfod yn llwyddiant eto eleni a nifer yr ymgeiswyr bron wedi dyblu. Roedd Catrin, merch Linda a Melfyn, Erw Wen yn canu gyda chôr llwyddiannus Plas Mawr ble mae'n ddirprwy. Yn ogystal roedd eu wyres, Nel, yn canu gyda chôr ysgol Treganna ac fe ddaethant yn 3ydd yn y gystadleuaeth.

Y Wal Goch

Braf oedd gweld dwy o genod Rhiwlas yn trafod yr Ewros ar y teledu. Mae Elliw Mai a Manon Steffan Ros yn gefnogwyr brwd o dim pêl droed Cymru. Yn 2016 cyhoeddodd Manon lyfr *Fi a Joe Allen*.

Eleni mae Manon wedi cyhoeddi llyfr arall a'r tro yma Aaron Ramsey sy'n cael y lle canolog a'r teitl wrth gwrs yw *Fi ac Aaron Ramsey*. Mae'r llyfr yn ymwneud â Sam sydd ag obsesiwn â phêl droed, yn enwedig gydag Aaron Ramsey. Dyma a ddywedir am Sam, mae yn dueddol o boeni am bopeth, yn ei fywyd personol ac ar y cae, ond drwy bêl droed mae yn ymdopi'n well gyda'i orbyrder. Mae'r nofel yn dangos pwysigrwydd siarad am eich problemau a rhannu pryderon.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sharon Grace, Tan Weirglodd ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Cafodd ei mab Lawrence a'i gyfar hogyn bach, Cassius Alexander, a'r teulu wedi dotio. Mae ei hen nain, Gwen Williams, Bro Rhiwen yn edrych ymlaen i weld y bychan. Pob hwyl i Sharon hefyd yn ei swydd newydd fel cogyddes yng nghanolfan Blue Peris, Dinorwig.

Trem yn ôl

Am 2 o'r gloch ar bnawn Gwener braf cyfarfu pump o enethod a fagwyd yn Rhiwlas, Ann, Gwyneth, Jane, Margaret a Menai yn Sgwâr Post i fynd am dro â'u meddyliau yn drem yn ôl i'w cynefin gynt, rownd Cae Mawr. Galw heibio Pen yr Erw, cartref Jane a chanfod fod y lôn i gerbydau bellach ar gau. I fyny'r entri gyntaf, heibio i fecws Twm Becar gan gofio'r arogleuon pobi a phawb oedd eisiau yn cael coginio'u ffowlyn a'u teisennau Nadolig yn y popty mawr. Camu i Stryd Uchaf a llifeiriant o atgofion annwyl yn llenwi cof Ann am y fagwraeth gadarn a chlos a gafodd yn rhif 7. I fyny'r ail entri a Jane ac Ann yn cofio'r Garreg Ateb wrth ymyl y gamfa ac yn rhoi tro ar gael ateb yn ôl. Cyrraedd Cefn Braich, oedd yn dŷ haf i rai o Lerpwl ac aros am ennyd wrth y pistyll bach, bellach wedi'i orchuddio â drain a mieri.



Genod Rhiwlas a aeth ar daith o hel atgofion

Cyrraedd y man lle bu llwybr troed drwy'r ffridd at gartref Dafydd Cae Mawr a'r cymeriad William John Cae Mawr. Yma yr arferem gasglu Plu'r Gweunydd, Aur y Gors, Blodau Llefrith, Clychau'r Gog, Briallu a Bonet Nain ar gyfer y bwrdd natur yn yr ysgol. Roeddem yn gyfarwydd â gweld a chlywed cri'r gylfinir a'r gornchwigen. Dyma un o hoff gyrchfan y gog yn flynyddol a chlywid ei deunod yn ddyddiol o Ebrill a Mai hyd hanner Mehefin.

Ymlwybro ymlaen at y lôn sy'n mynd heibio Bronnydd ac aros ennyd wrth lidiart y mynydd sy'n arwain i Faes Meddygon ble'r arferem hel llus. I lawr â ni tuag at Cae Mawr. Roedd Ann, gweddw Selwyn Williams, 1 Bro Rhiwen gynt wedi ein gweld

ar y daith ac wedi paratoi paned a bara brith inni a threfnu cadeiriau gan gadw'r pellter cywir yn ei gardd baradwysaidd. Bu'n orig o atgofion melysaf bore oes. Daeth amser ffarwelio a chan fod y llwybr troed heibio'r olwyn ddŵr bellach yn ddifancoll bu'n rhaid troedio'n ôl yr un ffordd.

Wedi cyrraedd Eglwys Bach, troi i'r dde am Garreg y Gath a "rhyw ysicod" yn dod drosom wrth fynd heibio'r tai a'r bythynnod gan gofio am anwyliaid a ffrindiau. Cyrraedd giât fu'n arwain at baradwys cenedlaethau o blant Rhiwlas – y wên o gofio dringo a llithro i lawr Carreg Nain a'r wefr o lwyddo i ddringo'r graig fawr. Ton o hiraeth wrth gofio llwybr Parc Mawr. Cyrraedd yn ôl i Sgwâr Post a Phenillion "Cynefin" Gwilym, brawd Ann yn dod i'r cof -

Does un man rwy'n siŵr yn y deyrnas Mor annwyl â Rhiwlas a'r fro, A mynnaf bob cyfle a gallaf Gael mynd i'm cynefin am dro. Er treiglo'r blynyddoedd â'u treon Daw atgof plentyndod o hyd I'm cof am yr hen ardal dirion A gwn mai gwyn iawn oedd fy mynd.

Diolch i Ann am ysgrifennu am y daith a oedd yn amlwg yn llawn atgofion i'r genod. Y maent am drefnu taith arall hefyd, fe fydd manylion yn y Llais ac fe fydd croeso i unrhyw un ymuno â hwy.

Mwy am y ddesg

Yn rhifyn mis Mai roedd llythyr gan Arfon Jones (Arfon Tŷ Gwyn), yn sôn am ddesg oedd yn ei feddiant, desg a gafodd ei ewythr pan gaewyd Ysgol Glan Rhyd Idwal. Bellach mae'r ddesg yn Rhiwlas yng nghartref Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd. Bu ei fam, y ddiweddar Mrs Magi Jones, yn ddisgybl yn yr ysgol gan fod y teulu yn byw yn fferm Bodesi, i fyny Nant Ffrancon. Yn ei llyfr *Oes o fyw ar y mynydd* mae Margaret Roberts yn disgrifio'r ysgol.

Fe godwyd eglwys yno gan Arglwydd Penrhyn gyda gwasanaeth ar y Sul ac yn yr ysgol ar hyd yr wythnos, roedd allor yn un pen a llenni i'w chuddio a bedyddfaen wrth ddrws yr ysgol. Dechreuai'r ysgol am ddeg o'r gloch, chwarter awr i chwarter am unarddeg o'r gloch, awr i ginio a chwarter awr i chwarae cyn mynd adref am dri o'r gloch. Roedd y dysgu i gyd yn Saesneg a phan aeth hi i Ysgol y Cefnfaes cafodd ei gwerau gyntaf yn y Gymraeg. Mae'r llyfr yn hynod o ddifyr, fe'i cyhoeddwyd yn 1979 gan Wasg Gwynedd gydag ail argraffiad yn 1981.

Mi fuasai teulu Bodesi yn falch o wybod fod y ddesg rwan yn dy feddiant Elwyn.



Plant Bodesi, mam Elwyn Jones a'i brawd

VAVASOR JONES

Gan Andre Lomozik

Yn rhifyn Mai soniais am Vavator Jones, bachgen a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Treuliodd rai blynyddoedd yn byw yn ardal Dyffryn Ogwen, a mynychu ysgol Dyffryn Ogwen, lle disgleiriodd fel pêl droediwr i'r ysgol. Ond nid ymddangosodd ei enw ar y Gofeb ym Methesda. Ar ôl ymchwilio i'w hanes darganfyddais fod ei enw wedi ei gofnodi ar gofeb Porthmadog.

Yna, ganol mis Mehefin, cefais lythyr gan Mr John Ffrancon Davies, o Windsor, yn adrodd ei hanes yn ymweld â Ffrainc ym mis Awst 1999 i weld 'eclips' llawn o'r haul. Ar ei ffordd adref galwodd i fewn i fynwent milwrol rhwng Cambrai ac Arras. Roedd wedi synnu gweld fod yna dros ddwy fil o feddi yno, ac wrth edrych ar lyfr wrth fynedfa'r fynwent am unrhyw un gyda'r cyfenw Jones, neu Davies, gan mai dyna oedd enw ei fam cyn priodi, daeth ar draws enw Vavator Jones. Dyma beth ysgrifennodd yn ei ddyddiadur, (12 Awst 1999) – "2nd Lieut. V. Jones, Dolcaradog, Bethesda" (Portmadog). Ychydig amser ar ôl dychwelyd adref daeth Mr Davies draw i Maes Coetmor, i ymweld â'i fam, ac aeth i lawr i'r Stryd Fawr i edrych ar y gofeb, ond siomedigaeth gafodd nad oedd enw Vavator Jones i'w gweld arni. Mae yn diweddu ei lythyr trwy ddweud, "Tydi tros ugain mlynedd ddim wedi gadael i mi anghofio y profiad o gael mynd, trwy ddamwain, i fynwent 'Dury Cruafix' a gweld enw milwr efo cysylltiad â'n hardal ni". Diolch i Mr Davies am gysylltu.

Grantiau i adnewyddu tai gwag i brynwyr tro cyntaf yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn lansio cynllun grantiau i adnewyddu tai gwag, er mwyn cynyddu cyfleoedd i bobl fedru cael cartref fforddiadwy o fewn eu cymuned.

Bydd y grant ar gyfer prynwyr tro cyntaf sydd â chysylltiad lleol i'r ardal ble lleolir y tŷ. Pwrpas yr arian fydd i roi cymorth i brynwyr tro cyntaf adnewyddu tai gweigion i ddod a nhw i safon byw derbyniol.

Mae modd ymgeisio am hyd at £15,000 tuag at gostau megis ailweirio, ail-blymio system wresogi canolog, gwaith atal tamprwydd, ffenestri a drysau allanol, ail-doi neu rendro.

Dywedodd y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd:

"Erbyn hyn rydan ni gyd yn gwybod bod Gwynedd yng nghanol argyfwng tai. Heb ymyrraeth ar lefel Cymru-gyfan, mae'n argyfwng sy'n mynd i ddinistrio ein cymunedau, ein ffordd o fyw, a dyfodol ein plant.

"Rydym yn gobeithio flwyddyn yma y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar beth sydd angen cael ei wneud i ddatrys y broblem a sydd tu allan i'n grymoedd ni, ond yn y cyfamser, rydym ni yng Nghyngor Gwynedd yn benderfynol ein bod am wneud beth bynnag sydd o fewn ein

gallu i daclo'r broblem, rŵan.

"Yn ddiweddar, fe wnaethom ymrwymo i fuddsoddi £77 miliwn i mewn i'n Cynllun Tai, i weithredu ar ein gweledigaeth o gartrefu pobl leol yn eu cymunedau, mewn tai gwyrdd, addas a fforddiadwy.

"Un o fy mlaenoriaethau i ydi helpu prynwyr tro cyntaf i gystadlu yn y farchnad dai, a hefyd i daclo'r broblem o nifer tai gwag sydd gennym yng Ngwynedd. Rydan ni'n ceisio helpu i ddatrys y ddau broblem yma trwy'r grant yma.

"Felly dwi'n falch iawn o fedru lansio'r grant ar gyfer tai gwag. Mae'n bwysig cofio bod pob ceiniog o'r £4 miliwn yma yn dod o'r premiwm treth cyngor ar ail gartrefi."

Mae'r Cyngor wedi cynnig grantiau tebyg yn y gorffennol, ond y tro hwn, bydd angen i ymgeiswyr fod a chysylltiad i'r ardal leol ble lleolir y tŷ.

Dywedodd un preswlydd, sydd wedi elwa o'r grant yn y gorffennol: "Roeddwn yn falch iawn o dderbyn y grant tai gwag – ni fyddwn wedi llwyddo i brynu'r tŷ heb y cymorth i'w ddatblygu sydd wedi fy ngalluogi i fod yn berchen tŷ am y tro cyntaf a byw yn y gymuned y cefais fy magu.

"Mae hwn yn gynllun gwych ac mae'r broses o ymgeisio yn rhwydd – byddwn yn annog unrhyw un sydd yn gymwys i fynd amdano."

Mae mwy o wybodaeth am y grant ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yma: www.gwynedd.llyw.cymru/taigwag



Manylion Cysw t
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carnoddi, Gorlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605385

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.theirallpaw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwrDyffrynOgwen  @Plac CymruOgwen

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk




Ysgol Bodfeurig

Ar ôl beth sydd wedi teimlo fel amser hir iawn braf oedd gweld ymweliadau yn ail ddechrau mis yma! Hwrê!

Pili Palas

Fel rhan o'u thema Byd Bach bu dosbarth Idwal i Pili Palas am y dydd. Cafodd pawb amser da yn dysgu am yr holl greaduriaid sy'n byw yno. Hoff bethau pawb oedd yr adar swnllyd a'r holl drychfilod!

Ar ôl picnic cafodd pawb modd i fyw yn chwarae gyda'i ffrindiau yn y parc chwarae newydd.



Glan Llyn

Mae plant wedi colli allan ar lawer o brofiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yr un sydd ar feddwl llawer ohonynt yw colli allan ar wyliau yn Glan Llyn! Wel efallai nad oedd yn bosib cael gwyliau yno ond cafodd dosbarth Ogwen ddiwrnod arbennig yno yn cael llawer o brofiadau gwahanol. Cafodd pawb fynd ar y cwrs rhaffau, y ddisgynnydd, canwio ac adeiladu rafft. Yn sicr erbyn diwedd y dydd roedd pawb wedi blino'n lân ond diolch i'r Urdd am brofiad gwerthfawr.



Chwaraeon yr Urdd

Mae gennym lawer i ddiolch i'r Urdd amdano y mis yma gan fod rhai o'u prentisiaid wedi dechrau dod acw i wneud chwaraeon pob dydd Mercher. Mae pawb wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd - diolch am eich amser!



Cyfeiriannu

Fel rhan o addysg Awyr Agored y plant daeth Gwydion Tomos i'r ysgol i gynnal pwnn o gyfeiriannu. Cafodd pawb bnawn diddorol iawn (a gwylb!) yn dysgu sut i gyfeiriannu a darllen map yn gywir. Diolch Gwydion am dy amser!



LLECHI CYMRU

Mae'r ymgais i sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn bwrw yn ei flaen. Mae'r argymhelliad sydd i'w gyflwyno i Banel Treftadaeth y Byd UNESCO yn ffafriol, a disgwylir penderfyniad terfynol yn ystod mis Gorffennaf, 2021 pan fydd y Panel yn cyfarfod yn rhithiol yn Tsiena. Os yn llwyddiannus, yr ardal lechi fydd y pedwaredd Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, yn ymuno a llefydd fel Mur Mawr Tsiena, y Taj Mahal a'r Great Barrier Reef ar y rhestr rhyngwladol.

Rhoddodd ein hardal do ar y byd, ac mae'r dirwedd llechi yn cael ei dathlu am ei chyfraniad byd eang yn darparu deunyddiau, pobl, sgiliau a thechnoleg i bedwar ban byd yn ystod y 19eg ganrif, yn ogystal a dathlu ein diwylliant, iaith a thraddodiadau arbennig sydd wedi siapio a diffinio ein cymunedau.

Mae pobl wedi bod yn ganolog i dirwedd llechi Gogledd Cymru ers y cychwyn. Mae'r sgiliau a thechnegau ddatblygwyd yr holl flynyddoedd yn ôl yn parhau, ochr yn ochr â defnydd arloesol ac anarferol i'r graig. Mae dylanwad diwylliannol a chymdeithasol diwydiant y llechi ar yr ardal wedi bod, ac yn parhau yn arwyddocaol hyd heddiw. Mae na lot mwy i lechi na toeon tai ac mae nifer yn gweithio yn neu yn cael ei hysbrydoli yn ddyddiol gan y



Cefnogwyd prosiect i godi wal lechi, 'piliari'(Crawiau) a panel wybodaeth newydd Clwb Rygbi, Bethesda



Cefnogwyd ddiwyddiadau i dathlu 200 Mlynedd Bethesda

diwydiant neu'r dirwedd.

Y diwydiant llechi oedd y Cymreicaf o ddiwydiannau mawr Cymru a dyma'r ardal sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg heddiw; Mae dros i 70% o boblogaeth dyffrynnoedd llechi Gwynedd yn siarad Cymraeg, ac yn rhywbeth rydym yn ymfalchïo ynddi.

Fel rhan o ddatblygu'r dynodiad, mae Cyngor Gwynedd ac ystod o bartneriaid trwy nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Partneriaeth Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod yn cydweithio gyda cymunedau o fewn chwech ardal y cais ar y cynllun 'LleCHI' i ailgysylltu pobl

gyda'u treftadaeth gyfoethog, i godi hyder a balchder ymysg trigolion a sbarduno adfywiad ein cymunedau. Mae cynlluniau yn cynnwys gwaith celf a murluniau, baneri lliwgar, dehongli amrywiol, gwella cyfleusterau lleol, hyfforddiant, sesiynau addysgiadol, cydweithio gyda'n pobl ifanc a llawer mwy.

Bydd Arddangosfa yn dathlu LleCHI ar agor yn STORIEL, Bangor dros fis Gorffennaf – Hydref, 2021.

Dywedodd Cian, un o Lysgenhadon Ifanc LleCHI sy'n byw ym Methesda "Fy hoff ran o fod yn llysgennad yw cael y cyfle i gyfarfod pobl ifanc o ardaloedd gwahanol yng Ngwynedd a dysgu am y diwydiant llechi yn y sir. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael sawl cyfle i ymweld a llefydd gwahanol cyn y cyfnod clo y llynedd a fy hoff ymweliad oedd pan gawsom ni fynd i ymweld a Llechwedd a cawsom wneud gweithgareddau gwahanol e.e mynd ar y 'Bounce Below' ac mynd am drip o amgylch y chwarel ar hen lori chwarel. Fy uchafbwynt o fod yn rhan o'r prosiect oedd cael rhoi cyflwyniad i gynrychiolydd o UNESCO a cael rhannu sgrin (gan mai'n rhithiol oedd y digwyddiad), gyda Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford.

Dilynwch gynnydd y prosiectau lleol a dysgu mwy am y cais ar gyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru neu ar y wefan www.llechi.cymru

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600833
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Helyd toeau llechi a gwaith yswidant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835187909

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dw i'n dal i bori bob hyn a hyn yn y Dyddiaduron o waith David David Evans, Glanrafon, Gerlan. Y tro hwn, dw i am dynnu sylw at ambell gofnod, heb ychwanegu gair nac ymhelaethu dim at yr hyn a gofnodd y dyddiadurwr. Wedi d'eud hynny, pe bai unrhyw un am gael rhagor o fanylion ynghylch rhyw digwyddiad neu'i gilydd, yna mae'n siŵr gen y byddai modd cael gwybodaeth ddiddorol a pherthnasol yn yr hen bapurau-

newydd sy'n cael eu diogelu yn yr Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon neu yn Archifdy'r Brifysgol ym Mangor.

Dyma sypyn byrrach na'r golofn a gynhwysir fel arfer yn Llais Ogwan:

1896

Sadwrn, Ionawr 11: Gosod carreg sylfaen Ysgol Ganolraddol gan Lady Penrhyn.

Mercher, Ionawr 26: Esgidiau

newydd David D. Evans gwerth 15/6.

1903

Iau, Mehefin 18: Daeargryn [yn yr ardal] heddiw.

1906

Gwener, Mehefin 29: Daeargryn fawr am dri o'r gloch y bora.

1913

Mercher, Gorffennaf 30: Diwrnod Arwerthiant Ystad

Tanybwllch yn y Farchnad am 6 o'r gloch

Mawrth, Medi 2: Cerbyd Modur (Llannerchymedd) yn dechrau rhedeg i Fangor a Bethesda.

1917

Gwener, Awst 24: Cyngor Dinesig Bethesda yn cynnal eu cyfarfod cyntaf yn yr office newydd.

Gwener, Ebrill 4: Mae hwn wedi bod yn fis gwlyb ar ei hyd a'r mis gwlypaf ers 1841.

Mudiad Meithrin yn cyhoeddi Ap Cymraeg a Gwyddelig

Mae Mudiad Meithrin - yr arbenigwr blynyddoedd cynnar Cymraeg blaenllaw yng Nghymru - yn falch o gyhoeddi ap newydd sy'n cynnwys 3 e-lyfr Cymraeg, gydag un o'r llyfrau hyn wedi'i gyfieithu i'r Wyddeleg fel y gall Gaeloideachas ei ddefnyddio i hyrwyddo addysg cyfrwng Gwyddelig yn Iwerddon.

Mae Mudiad Meithrin yn sefydliad sy'n angerddol am roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru chwarae, dysgu a thyfu yn Gymraeg. Mae nifer o rieni di-Gymraeg wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod wedi colli allan ar y cyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus dros y blynyddoedd ac maent yn awyddus bod eu plant yn cael cyfle i ddod yn siaradwyr Cymraeg. Dewin a Doti 2 yw ail ap Mudiad Meithrin, ond yr adnodd cyntaf i gynnwys stori yn y Wyddeleg yn ogystal â fersiynau Makaton, a bydd yr ap yma'n gymorth i rieni i glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn y cartref.

Mae'r ap Dewin a Doti 2 yn cynnwys 3 stori am gymeriadau hoffus Mudiad Meithrin, Dewin a Doti. Mae Dewin a'i ffrind ffyddlon Doti y ci yn bresennol yn ein holl Gylchoedd Meithrin i helpu plant i siarad Cymraeg, gan mai Cymraeg yw'r unig iaith mae Dewin a Doti yn ei siarad a'i deall. Thema'r tri llyfr yw Dewin a Doti yn dathlu'r Flwyddyn Newydd ledled y byd, Dewin a Doti yn helpu eu ffrind i ailgylchu, a'r trydydd e-lyfr sydd wedi'i

gyfieithu i'r Wyddeleg yw Dewin a Doti yn teithio ledled Cymru.

Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Fel mudiad sydd yn angerddol am roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru chwarae, dysgu a datblygu drwy'r Gymraeg, rydym wrth ein boddau yn cydweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo caffael iaith a'r manteision o fod yn amlieithog. Gan fod 80% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog, credwn fod dwyieithrwydd yn fuddiol i bob plentyn yng Nghymru ac yn cynnig mwy o gyfleoedd iddynt mewn bywyd. Gobeithiwn y bydd rhieni yn mwynhau defnyddio'r ap hwn gyda'u plant."

Bydd yr holl e-lyfrau hyn i'w gweld ar yr ap yn ogystal â thafenni gweithgaredd a gêm lotto. Maent ar gael i'w lawrlwytho trwy'r siop apiau ar bob plattform. Mae fersiwn Makaton ar gael gyda'r holl straeon Cymraeg hefyd.

Mae Mudiad Meithrin wedi cynhyrchu'r fersiwn Wyddeleg fel rhodd i Gaeloideachas sef y prif sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi datblygiad ysgolion cyfrwng Gwyddelig a Gaeltacht ar lefel gynradd ac ôl-gynradd. Mae Gaeloideachas yn darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth i bobl sy'n dymuno cael addysg i'w plant trwy gyfrwng y Wyddeleg, o'r ysgol gynradd

(naïonraí) i ysgolion cynradd ac ôl-gynradd cyfrwng Gwyddelig yn Gaeltacht ac ardaloedd sydd ddim yn cael eu hystyried fel ardal Gaeltacht. Mae Gaeloideachas yn gweithio i eirioli ar ran naïonraí ac ysgolion i hwyluso safon addysg drochi ledled y wlad yn ogystal â datblygu a chryfhau'r gymuned a'r diwylliant sy'n siarad Gwyddeleg.

Gweledigaeth Gaeloideachas yw y dylai addysg drochi trwy gyfrwng y Wyddeleg o ansawdd uchel fod ar gael i bob rhiant a gwarcheidwad a fyddai'n ei ddewis ar gyfer eu plentyn, a gweledigaeth Mudiad Meithrin yw y dylai addysg Gymraeg fod ar gael i bob plentyn yng Nghymru.

Mae Prif Swyddog Gweithredol Gaeloideachas, Bláthnaid ní Ghréacháin, yn canmol y gwaith:

"Hoffwn ddiolch i Mudiad Meithrin am ein gwahodd i fod yn rhan o'r fenter arbennig hon ac am ganiatáu i siaradwyr ifanc a dysgwyr fwynhau'r Wyddeleg drwy'r e-lyfr newydd hwn. Mae sicrhau bod y llyfr hwn ar gael yn electroneg yn ehangu'r cyfleoedd i lawer o deuluoedd a lleoliadau blynyddoedd cynnar gael mynediad at yr iaith yn hawdd. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Mudiad Meithrin yn y dyfodol i ddatblygu mwy o adnoddau i helpu i annog defnydd a dysgu pellach o'r Gymraeg a'r Wyddeleg."



Gwasanaeth Gwrando'r Samariaid

Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gwranddo ar gyfer y rhai sydd yn unig, yn drallodus neu yn ystyried diweddu eu bywydau ac rydym ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Yn ystod 2020 atebodd y Samariaid alwadau am gymorth bob 9 eiliad, gan ateb dros 3 miliwn o alwadau ffôn dros y flwyddyn a dros hanner miliwn o e-byst. Wrth drafod y teimladau hyn o unigrwydd a diffyg cysylltiad a all arwain ar hunanladdiad, y gobaith yw y bydd hyn yn lleddfu'r teimladau o anobaith a bydd y galwr yn dod i sylweddoli bod modd gwella'r sefyllfa rywfaint.

Gweledigaeth y Samariaid yw y bydd llai'n marw o hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel; mae'n bosib ei rwystro a chydnyddir gan lawer o ymchwil mai'r allwedd i geisio rhwystro hyn yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth, ond tu ôl i bob ystadegyn mae unigolyn sydd yn gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled.

Mae'r nifer o hunanladdiadau yn bryder mawr - yn 2019 diwedddodd 330 o bobl eu bywydau yng Nghymru, 248 o ddynion ac 82 o ferched ac mae dynion deirgwaith yn fwy tebygol felly o gymryd eu bywydau na merched. Dynion yn yr oedran 40-44 sydd â'r gyfradd uchaf o hunanladdiad yng Nghymru, tra mai hunanladdiad yw'r achos uchaf o farwolaeth mewn dynion ifanc rhwng 16 a 25.

Mae'r ystadegau'n dangos bod achosion o hunanladdiad yn uwch yn y siroedd gwledig yng Nghymru sydd yn adlewyrchu'r pwysau



a'r problemau sydd yng nghefn gwlad a'r byd amaethyddol. Gwynedd oedd y sir â'r raddfa uchaf o hunanladdiadau bob 100,000 person yng Ngogledd Cymru yn 2019 - 15.5; ar Ynys Môn roedd yn 13.1 ac yn Sir Conwy 11.5. Ceredigion oedd â'r raddfa uchaf yng Nghymru sef 18.2. Mae ffonau argyfwng ar y ddwy bont Menai wedi cysylltu â'n Cangen ni gan obeithio y bydd unigolyn yn ffonio mewn sefyllfa o anobaith.

Mae'r Samariaid, fodd bynnag, ar gael i unrhyw un sydd yn dymuno cael clust i wrando a'r cyfle i fynegi eu teimladau a'u pryderon, nid yn unig y rhai sydd yn ystyried diweddu eu bywydau. Mae unigrwydd, iselder a theimladau o hunanladdiad yn gallu effeithio ar bobl o bob rhan o gymdeithas. Ni fyddwn byth yn barnu ac weithiau, oherwydd amgylchiadau, gall fod yn haws ymddiried mewn rhywun sydd yn gwbl anhysbys. Mae'n bosib cysylltu dros y ffôn, trwy e-bost neu lythyr, a phan fydd y pandemic Covid ar ben, ymweld â'r Ganolfan eto i gael sgwrs wyneb yn wyneb.

Y Samariaid yng Ngogledd Orllewin Cymru a Chymorth yn y Gymraeg

Mae Cangen y Samariaid yng Ngogledd Orllewin Cymru ym Mangor ac yn gwasanaethu Gwynedd, Ynys Môn a Gorllewin Conwy.

Mae Llinell Gymraeg ar gael bob nos rhwng 7 a 11 ar y rhif 0808 1640123 ac mae'n bosib ysgrifennu llythyr atom yn Gymraeg. Gweler ein gwefan am fanylion llawn - www.samariaidbangor.cymru.

Yr angen am fwy o wirfoddolwyr yn arbennig siaradwyr Cymraeg

Mae angen dybryd am fwy o wirfoddolwyr yn y ddwy iaith i ddelio â'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaeth ac yn arbennig siaradwyr Cymraeg i gynnal ac ehangu ar y gwasanaethau Cymraeg yn ein cangen ddwyieithog yma yn y Gogledd Orllewin. Yr hyn sydd angen yw'r gallu i wrando ac mae cwrs hyfforddi manwl cyfrwng Cymraeg ar gael wrth baratoi ar gyfer bod yn wrandäwr. Bydd y cwrs hyfforddi nesaf ym mis Medi. Yr ymrwymiad yw dyletswydd 4 awr yr wythnos gydag un dyletswydd dros nos bob 4-6 wythnos. Os teimlwch y gallwch chi wirfoddoli, cysylltwch â ni i gael y manylion llawn drwy ffonio 01248 674984 (Ffôn Swyddfa, nid ar gyfer cymorth emosynol) neu e-bostiwrch - recrwtio@samariaidbangor.org

Sgyrsiau i Fudiadau a Chymdeithasau

Rydym yn rhoi sgyrsiau a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am sgiliau gwranddo ar eraill â Mudiadau a Chymdeithasau o bob math. Byddwn ond yn rhy falch i ddod atoch - cysylltwch â ni os gallwn fod o gymorth.

Tudur Williams

Cyfarwyddwr - Samariaid Gogledd Orllewin Cymru.

Oes gennych chi
ddiddordeb
i hysbysebu yn
Llais Ogwan?



Cysylltwch â
Neville Hughes
(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com



Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

CHWILAIR

CHWILAIR GORFFENAF

Adar

A	A	W	F	H	H	W	Y	A	D	E	N	W	Y	L	L	T	R	I	E
J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G
V	H	M	D	W	H	A	D	E	R	Y	N	D	R	Y	C	I	N	U	S
M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	H	P	Y
Q	Z	G	R	A	H	C	U	M	G	W	G	N	O	Y	R	C	I	A	S
Z	U	T	F	L	D	X	U	P	R	W	W	R	H	C	O	Q	H	W	E
H	O	B	Y	A	E	E	G	E	U	O	Y	M	H	G	E	H	P	T	T
C	T	A	B	R	B	C	U	U	G	J	D	P	F	L	T	C	M	I	V
V	F	R	D	C	C	B	R	B	A	F	D	D	N	R	F	O	O	G	J
V	F	C	I	H	I	R	A	R	I	X	D	I	I	M	H	G	T	T	O
N	I	Y	S	D	K	O	C	P	R	Y	A	W	C	R	C	N	M	K	C
W	A	D	B	O	O	R	W	C	G	X	L	V	Y	R	Y	E	H	S	T
B	R	C	M	F	R	E	O	D	O	F	C	Y	R	J	D	B	Z	H	B
Y	Y	O	C	W	O	S	D	C	C	R	E	A	D	I	X	N	N	I	L
N	D	C	X	J	J	Y	I	M	H	B	N	W	N	T	E	E	X	M	D
Y	D	H	X	K	H	F	L	U	P	C	W	Q	Y	Y	O	D	I	L	F
R	Y	E	R	C	Z	Q	I	R	O	C	E	T	R	D	G	A	W	S	L
E	W	Z	O	E	B	E	B	A	J	K	N	J	D	C	L	Y	N	L	R
D	G	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	E	W	J	W	J	Q	U
A	T	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	P	L	Z	H	E	A	F

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDDG ADERYN i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond

i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy llythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

Dyma atebion chwilair Mehefin. Llandudoch; Pontsenni; Rhaglan; Sain Ffagan; Sainsiorys; Senghennydd; Tal y Sarn; Tan y Grisau; Traeth Coch; Uwchmynydd; Ynys Dewi.



Nyth y Gân

CWM CASEG

Ei goler ffurfia gwllwm, – oer a llwyd
Yw'r lle fel erstmalwm,
A daw'r lli drwy'r gwaendir llwm
Yn berlau yn y bwrlwm.



NYTHOD

Hen lwyn sydd eto 'leni – yn iraidd
Yn awr yn ei wyrddni;
Daw'r nythod wedi'r noethi
Yno'n ôl fel gwelwn ni.

SŴN YR AFON A'R DAIL

Un lwydaidd, araf, lydan, – a natur
Yn ateb mewn cytgan;
Ei llais a glywais o'i glan
Ac adlais dail y goedlan.

Y GÂN HWYROL

Sain hwyrol sy'n ein harwain – yn y gwyll
Yno'n gôr mor bersain;
Adar mân biau'r gân gain
A hyder dan ddwy adain.

TONNAU'N TARO

Un ateb a ddaw eto – o donnau
A'n denodd i wrando
Yw sŵn eu twrw'n taro
Â'r ewyn gwyn ers cyn co'.

Y LLWYN

Mor braf oedd edrych arno
Yn ysgwyd yn yr ardd,
Ei wisg o flodau lliwgar
A'r rheini'n hynod hardd.

Bob hyn a hyn bu'r gwenyn
Yn dawnsio uwch ei ben
A glanio arno'n ysgafn
I beillio twf y pren.

Dim ond am rai wythnosau
Y bu y darlun tlws
Yn denu sylw amryw
Drwy'r ffenest' a thrwy'r drws.

Mor hapus ac mor ddiwyd
Fu'r gwenyn wrth eu gwaith,
A'r dynfa at felyster
Wir brofodd werth y daith.

Dafydd Morris



Y MORGRUGYN

I'w ogof try'r morgrugyn – yn dalog
Â deilen i'w ganlyn;
I'w wâl y try rhag gelyn,
Hyn sydd yn olygfa syn.

Y DIWYLLIANT CYMRAEG

Mae'n denu, mae'n dihuno, – i'n cenedl
Cynnyrch sy'n disgleirio;
O gam i gam bu'n fflamio
Uwch y brad yn llewyrch bro.

GLAW MÂN

Daw'n llen mor ddi-lawenydd – a gwasgu'i
Gysgod dros y bronnydd;
Dwys y daw i dywys dydd
Dros feini dyrys fynydd.

Y PRYF GENWAIR

Ei dŷ oer yw daearen, – yn y pridd
Mae'r pryf yn ei elfen;
Byd hwn a dry'n abwyd hen
Yn adfyd o dynghedfen.

FFYDD YNG NGRIST

Ei Gariad sy'n ddigerydd, – yn gyfan
Yn gafael mewn stormydd,
A pherffaith yw ffaith ein ffydd
Yn gywir yn dragwydd.

TRIWYR PENYBERTH

Saunders Lewis
Onid tŵr a fu'r gŵr gwan – i'w genedl,
I gannoedd yn darian;
Ei fur fu'n ffin yn y fan
A'i ofal yn daer, gyfan.

D.J. Williams

Ei nawdd oedd ei lenydd, – hen droeon
Y storïau teca';
Gwên mewn drycin a hindda,
Yn ddewr, ei aberth fu'n dda.

Lewis Valentine

Val â'i safiad a folwn, – gŵr y Ffordd,
Gŵr o ffydd a barchwn;
Yn gadarn nawr fel gydiwn
Yn hardd egwyddorion hwn.

CODIAD HAUL

(o'r tu ôl i'r Carneddau)
Ymyl o olau'n rhimyn – yn hudol
Yn ei wrid amheuthun;
Â'i ôl brwd uwch ael y bryn
Yn gwrel hyd ei gorun.

Goronwy Wyn Owen

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



Llais Ogwan

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

JAMIAU CARTRA'

(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau




CROESAIR

AR DRAWS

- 1 Côt y ddafad (3)
- 3 Cynefin Hedd Wyn, ar lafar (5)
- 7 Lle blodeuog yn Eden (4)
- 8 26 ohonynt eleni (8)
- 9 Amgyffred a deall yn sydyn (9)
- 12 Sut mae'r gwynt yn cau'r drws fel arfer (2,4)
- 13 Ychydig o wella mewn gini oedd swydd y forwyn fach ers talwm (6)
- 15 Clwyfau a briwiau (9)
- 18 Rhoi ei haeddiant iddo am lwyddo (8)
- 20 Ymroi mewn arferion da wna dalent (4)
- 21 Os del yw'r ferch, mae hi ddryslud iawn (5)
- 22 I ddal lein 'sgota (3)

I LAWR

- 1 Fel llygaid siarp ac effro (4)
- 2 Bod yn fonheddig ac anrhydeddus (7)
- 3 I'r bychan gael diod (3)
- 4 Englynon RWP am 2 Ar Draws yn cyfeirio -- --- enedigol bardd y gadair ddu (2,3)
- 5 Mae sain Tomi yn aflafar ac yn creu anfodlonrwydd (8)
- 6 'Dyw eli a Pepsy yn gymysgfa dda i ddim i wella'r cyflwr yma (8)
- 10 Daw deigrin o ddiodeff dyrnodau caled paffiwr (8)
- 11 Gwych a bendigedig, ac yn swnio fel pe bai am fyw am byth (8)
- 14 Un o wledydd gogledd yr Andes (7)
- 16 Dweud ei bader yn iawn er mwyn amddiffyn ei hun rhag drwg (5)
- 17 Cael sbort wrth ddal gwynt ar long (4)
- 19 Oes, i wŷr o Grymych (3)



ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2021

AR DRAWS 1 Bet, 3 Comic, 8 Golygus, 9 Nesau, 10 Olynu, 11 Organydd, 12 Botymau, 18 Pechadur, 20 Hufen, 21 Wedyn, 22 Marchnad, 23 Gwlân, 24 Gwg

I LAWR 1 Baglor, 2 Talsyth, 3 Cysgod Y Cryman, 4 Maneg, 5 Cusanu, 6 Egluro, 7 Purddu, 13 Amharu, 14 Opiwm, 15 Ychydig, 16 Afonig, 17 Unedig, 19 Dynol

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig **i beidio** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn y rhifyn nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.

STEPHEN JONES

TREFNWR

ANGLADDAU CYF

✝

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

✝

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

BYBUS
D. J. Jones
RHIFLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYBUS 0 25 | 57 SEDD AR GAEL AR CYFER
BYR HOLL ANGHENION TEITHIO
TRIPAU, PRIOGASAU, PARTIŅ AC ATL

Bybus Gwyrdd Rhiflas

GWASANAETH LLEIDL, TRADDODIADOLA DIBYNADWY
SCRIBLWAD 1007 PERCHIDUNOG DERFELLOWNS

Teyrnged i Alaw Jones, Parc Moch

Gyda tristwch mawr mae'n rhaid cofnodi marwolaeth ddisyfyd Alaw a fu farw ar Fai 29ain eleni. Yr oedd Alaw yn un o gymeriadau arbennig Dyffryn Ogwen ac un a lwyddodd yn ei faes fel saer maen i ennyn yr anrhydedd o fod yn bencampwr uchel iawn ei barch yng Nghymru a'i allu fel waliwr meistrrolgar yn gydnabyddedig drwy weddill Prydain. Un o hogia Carneddi oedd Alaw yn fachgen tawel, diymhongar, sylwgar a bonheddig, gyda gwên ddiereidus ar brydiau, ac nid oedd ymffrost uchel ei gloch yn rhan o'i gymeriad, ond eto gŵr a wyddai hyd a mesur ei ddawn a'i gamp. 'Doedd o ddim yn sgolor yn yr ysgol, yn wir yr oedd presenoli ei hun yn y dosbarth yn dipyn o boendod iddo, ac yn her i'r rhai a fynnai ei fod yn mynychu'r sefydliad yn ddyddiol. Yn hytrach, ers yn fachgen yn ei ardegau cynnar dysgodd Alaw drwy sylwi, holi a chynorthwyo hen feistr o waliwr yng Nghoed Isaf y grefft o godi waliau sych. A dyna oedd i ddatblygu, drwy ei allu cynhenid, ei ddeallusrwydd a'i ddawn ymarferol a'i gryfder corfforol, yn yrfa nad oedd ei thebyg ac megis yn brifysgol o ddysg a phrofiad iddo. Yn ystod ei yrfa bu'n adeiladu waliau ledled Prydain gan gyflwyno ei grefft mewn sawl canolfan addysg genedlaethol yn ogystal a bod yn feirniad craff ac uchel ei glod mewn cystadlaethau adeiladu waliau ym mhob rhan o'r wlad. Ddwy flynedd yn ôl yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd cyflwynwyd anrhydedd cenedlaethol iddo am ei gyfraniad enfawr i grefft y saer maen yng Nghymru, ac ar ddathlu hanner canmlwyddiant Cymdeithas Waliau Cerrig Sych Prydain penderfynwyd urddo Alaw fel cynrychiolydd amlycaf ac mwyaf anrhydeddus Cymru am ei wasanaeth clodwiw yn cynnal y grefft arbennig hon. Un o'i gyfraniadau pwysig



yw iddo gasglu a thrysori geirfa arbennig crefft y saer maen - er enghraifft dywed fod gan forthwyl pump enw gwahanol yn Gymraeg, ond meddai gyda gwen lednais, saer maen gwael iawn sy'n mynnu hollti a naddu cerrig oherwydd fe ddylai pob carreg gymryd ei lle'n gymesur megis ac mewn darn o frodwaith.

Nid fel saer maen yn unig yr adnabyddid Alaw oherwydd yr oedd hefyd mor amlwg ei ddawn ei barch a'i allu yn y sioe genedlaethol, fel mewn sioeau bach a mawr drwy Brydain, fel cystadleuydd a beirniad ar dyfu llyisiau a blodau. Ei brif ddileit oedd mewn tyfu tatws, a rhyfeddol oedd maint ei ymdrechion i gael yr had cywir, hyd at saith math gwahanol o datw er enghraifft, a manylder y broses o dyfu'r had er mwyn cyrraedd perffeithrwydd mewn maint,

gwedd a chyflwyniad y cynnyrch ar gyfer eu cystadlu boed hynny yn y sioeau mwyaf eu bri yn genedlaethol neu yn ddiwahân yn sioeau mwyaf distadl ein broydd. Dileit arall Alaw oedd casglu hen gardiau post gan arbenigo yn bennaf ar gardiau ei fro enedigol. Mae ei gasgliad yn un eang ond yr oedd hefyd wedi dysgu am gefndir a hanes cynnar y gwasanaeth post ym Mhrydain yn ogystal a hanes rhai o'r photographwyr a gynhyrchai'r cardiau.

Ond perthynai un rhyfeddod arall i fywyd Alaw, rhyfeddod a rannai yn gytbwys gyda'i wraig Beti. Ar un tro daethant yn rhieni maeth megis i ddwy ferch fach o India yr oedd eu rhieni yn feddygon yn yr ysbyty ym Mangor. Drwy amgylchiadau nad ydynt o bwysigrwydd yma, gorfu i'r rhieni ymadael yn ôl i India gan adael y merched yng ngofal Alaw a Beti drwy flynyddoedd estynedig eu haddysg ym Mangor. Mae'r ddwy ferch yn feddygon eu hunain bellach ac wedi ymsefydlu yn Awstralia, ond mae eu parch i Alaw a Beti yn anfesuradwy. Gellir mesur y parch pan dderbyniodd Alaw yr anrhydedd mwyaf posibl o gael cyflwyno un o'r merched fel ei thad yn ei phriodas yn absenoldeb ei thad gwaed drwy ei farwolaeth, profiad a oedd nid yn unig yn un hynod ddiddorol ond a oedd hefyd o bwysigrwydd eithriadol i'r teulu, ac a ystyriai Alaw yn un o uchafbwyntiau ei fywyd.

I ni sydd mewn anwybodaeth llwyr o grefft y saer maen efallai nad oes rhyfeddod i'w gweld mewn wal gerrig, canys casgliad o feini bras ac anffurf a fyddai, ond i Alaw perthynai pob wal ei mawredd, ei glendid a'i cheinder. Yn y cyfanwaith dywedir mai y cerrig cloi rydd gryfder i'r adeiladwaith, a chyda marwolaeth Alaw mae Dyffryn Ogwen wedi colli un o'r meini clo mwyaf diymhongar a gwybodus yn ein plith ac yn a roddodd enwogrwydd ac anrhydedd i'n cymdeithas. Heddwch i'w lwch.

SIÂNGWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

sian.gwenllian@senedd.cymru



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON



Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro'r cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas Edward Llwyd

gan Shelagh Fishlock

Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth Coleg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a threfnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd.

Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELL. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai daith arall y Gymdeithas yna ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwyd. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELL, wefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhiwtor- roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - daith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn

ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (Hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)


Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwyr (neu "siaradwr newydd")?

- Byddech chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.
- Byddech chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Cymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swinio'n annaturiol.
- Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.
- Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.
- Mae e'n jyst lot o hwyl!

Da ynte!, mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysgwraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn mae cyfle gwych i ddatblygu'r iaith a gwneud ffrindiau newydd. Ewch at ein gwefan i lawr lwytho ffurflen aelodaeth - <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/aelodaeth/>. Mae ein rhaglenni teithiau maes i'w gael ar y wefan hefyd a bydd eich aelodaeth yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022. Gall bod fel cael Sadwrn Siarad bob wythnos am ddim ond £20! Dewch i fwynhau a chadwch eich Cymraeg yn fyw!

Rob Evans – Ysgrifennydd Aelodaeth

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth arolyddiog personol a chyfreilgar*

Suydlfeydd eraill:

<i>Llangefni</i>	<i>Postfach 105</i>	<i>Banllech</i>
(01248) 723106	(01248) 719517	(01248) 852782

<i>Llarnog</i>	<i>Postfach 105</i>
(01248) 673616	(01758) 503000

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995



www.llaisogwan.com



@Llais_Ogwan



post@
llaisogwan.
com